Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad

# Assembly Commission Audit Committee

**NAFWC ACAC**

**Cofnodion 09 Chwefror 2012**

**Amser:** 11:00

**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4b, Tŷ Hywel

## Cofnodion y cyfarfod ar 09 Chwefror

**Yn bresennol:**

Richard Calvert (Cynghorwr Annibynnol)

Tim Knighton (Cynghorwr Annibynnol)

Yr Athro Robert Pickard (Cynghorwr Annibynnol)

Angela Burns, AC

**Swyddogion yn bresennol:**

Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Dianne Bevan, y Prif Swyddog Gweithredu

Nicola Callow, Pennaeth Cyllid

Jan Koziel, Pennaeth Caffael

Lynne Flux, Pennaeth Archwilio Mewnol

Ian Pennington, KPMG

Andrew Allman, KPMG

Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru

Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru

John Grimes, Pennaeth Llywodraethu

Alison Rutherford, Ysgrifenyddiaeth

| |
|---|
| **Yn arsylwi:**<br>Y Cynghorydd Edwards, Cyngor Sir Fynwy<br>Y Cynghorydd Hayward, Cyngor Sir Fynwy |

**<u>Cyflwyniadau</u>**

**Eitem 1 – Cyflwyniad a datgan buddiannau**

1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol a chyflwynodd y Cynghorydd Edwards a'r Cynghorydd Hayward o Gyngor Sir Fynwy, a oedd yn arsylwi ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio. Ni chafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**Eitem 2 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Gorffennaf 2011 a materion sy'n codi**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol y tu allan i'r pwyllgor, a nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd.

3. Nododd y Cadeirydd y ffaith bod ffi Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i hepgor o'r amlinelliad ar gyfer 2011/12, a nododd fod swyddogion bellach wedi cael y ffigur, sef yr un ffi a'r flwyddyn flaenorol.

**<u>Archwilio mewnol</u>**

**Eitemau 3 a 4 – Archwilio Mewnol – y cynnydd diweddaraf a'r strategaeth wedi'i diweddaru**

ACAC(11) Papur 2a. Cynnydd yr Adolygiadau Archwilio Mewnol
ACAC(11) Papur 2b. Strategaeth Archwilio Mewnol Ddiwygiedig ar gyfer 2012/13

4. Trafododd y Pwyllgor Archwilio y papurau a rhoddodd Lynne Flux drosolwg o'r sefyllfa archwilio mewnol bresennol, a'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2012/13. Dywedodd Lynne ei bod yn fodlon â chynnydd yr adolygiadau, a nododd fod y flaen-strategaeth wedi'i hadnewyddu i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Gofynnodd Lynne am sylwadau'r Pwyllgor ar y manylion ynghylch y meysydd a oedd wedi'u cwmpasu yn yr atodiad i'r Strategaeth.

5. Roedd y Cadeirydd o'r farn ei bod yn bosibl nad oedd llawer iawn o'r strategaeth yn ymwneud â TGCh, ac y byddai angen ystyried hyn efallai, yn enwedig o ran ei chysylltiad â chaffael. Ychwanegodd y gallai mapio sicrwydd gynnig dull sydd â mwy o strwythur, dros amser.

6. Nododd Lynne y byddai mapio sicrwydd yn cael ei ystyried, a dywedodd wrth y Pwyllgor Archwilio fod y dull o drefnu adnoddau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol at y dyfodol yn cael ei ystyried, ac y byddai hyfforddai yn cael ei benodi yn y dyfodol agos. Ychwanegodd Claire Clancy fod Archwilio Mewnol yn bwysig i dynnu sylw at feysydd gwan er mwyn gwella perfformiad.

**Eitemau 5 a 6 – Adroddiadau Archwilio Mewnol**

ACAC(11) Papur 2c. Adroddiad Rheoli Diogelwch Data a Gwybodaeth
ACAC(11) Papur 2d. Diweddariad i Atodiad 1
ACAC(11) Papur 2e. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd: archwiliad ynghylch rheoli diogelwch data a gwybodaeth

7. Cyflwynodd Andrew Allman o KPMG yr adroddiad ar Reoli Diogelwch Data a Gwybodaeth, gan nodi'r prif ganfyddiadau, sef bod diffyg perchnogaeth a diffyg rheolaethau ar waith i reoli data personol, a bod y Comisiwn yn mynd yn groes i egwyddorion y Ddeddf Diogelwch Data mewn rhai achosion. Rhoddwyd gradd 'dim sicrwydd', gan dynnu sylw at yr angen i'r Comisiwn fynd i'r afael â'r materion hyn cyn gynted â phosibl.

8. Rhoddodd Dianne Bevan wybod i'r Pwyllgor Archwilio, er bod gwaith wedi'i wneud yn y gorffennol ar y strategaeth rheoli gwybodaeth, darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, a oedd wedi arwain at reoli cofnodion papur yn dda, nad oedd hyn wedi cael ei ddyblygu yn achos gwybodaeth a gedwir yn electronig. Ychwanegodd Dianne fod gwaith wedi'i wneud ar unwaith ar y meysydd y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad. Roedd Lynne Flux wedi cwrdd â'r aelodau o staff perthnasol, roedd grŵp Gwybodaeth a Diogelwch wedi'i sefydlu, ac roedd arbengiwyr newydd yn cael eu recriwtio. Byddai'n rhaid ystyried prosesau a dulliau gweithio yn ofalus, er mwyn sicrhau dealltwriaeth well.

9. Nododd y Pwyllgor Archwilio ei fod yn siomedig mai 'Dim sicrwydd' oedd y radd gyffredinol, a nododd y dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o bwysigrwydd data personol a'r cyfrifoldeb sydd gan y Comisiwn o ran ei reoli. Pwysleisiodd y Pwyllgor Archwilio y dylid ymdrin â'r mater hwn ar fyrder. Awgrymodd Tim Knighton y dylid llunio strwythur i reolwyr yn seiliedig ar y gofrestr asedau gwybodaeth er mwyn dyrannu atebolrwydd, ac y byddai'n hanfodol trefnu hyfforddiant digonol a'i ddarparu mewn modd priodol. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw feysydd pellach y gallai prosesau sy'n ymwneud â risg a rheolaeth fod wedi'u methu.

10. Ymatebodd Claire Clancy gan ddweud ei bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd ar unwaith, ac y byddai gwaith yn parhau i sicrhau yr eir i'r afael yn llwyr â phob maes a nodwyd yn yr adroddiad. Cytunodd Claire â'r pwyntiau ynghylch hyfforddiant a phwysigrwydd sicrhau bod staff yn magu dealltwriaeth drwy'r broses gynefino a hyfforddiant parhaus, ac, os bydd hyn yn ddigonol, y gellir dwyn pobl i gyfrif. Ychwanegodd, mewn cysylltiad ag unrhyw oblygiadau ehangach, y dylai'r dull newydd o reoli risg sicrhau bod gan reolwyr brosesau yn eu meysydd hwy ar gyfer canfod mannau gwan, ac, er y byddai'n anodd, y gallai fod angen eu datgelu er mwyn sicrhau bod prosesau'n gadarn.

11. Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig sicrhau bod y camau a gymerwyd yn gamau lliniaru, a gofynnodd i swyddogion ddarparu gwybodaeth fanwl am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y camau hyn yn y cyfarfod nesaf, ac i gyflwyno darlun mwy eglur o'r data a gedwir.

ACAC(11) Papur 2f. Adolygiad o weithdrefnau recriwtio ar gyfer cynghorwyr annibynnol ac arbennig.

12. Cyflwynodd Lynne Flux y papur a oedd yn argymell y dylai'r Cynulliad nodi ei egwyddorion recriwtio ei hun yn seiliedig ar egwyddorion recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil, a hynny er mwyn sicrhau bod y broses o recriwtio i swyddi arbenigol yn effeithlon ac yn dryloyw. Argymhelliad arall oedd y dylid cryfhau'r trefniadau llywodraethu. Roedd angen cyflwyno proses gadarn o gadw cofnodion yng nghyswllt y penodiadau hyn, a hynny er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio dibynadwy o ran y broses recriwtio.

13. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad, a nododd bwysigrwydd defnyddio arbenigwyr allanol.

**Eitem 7 – Y wybodaeth ddiweddaraf am gaffael gan Jan Koziel – Pennaeth Caffael**

14. Cyflwynodd Jan Koziel ei hun, a rhoddodd wybodaeth gefndir am ei brofiad. Roedd bellach wedi cwblhau deufis o'r ddwy flynedd y byddai ar secondiad o Asiantaeth yr Amgylchedd, ac roedd wedi bod yn adolygu'r prosesau caffael presennol, ac yn gwerthuso'r rhaglen gaffael gyffredinol.

15. Rhoddodd Jan gyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a oedd yn tynnu sylw at y meysydd y bu'n canolbwyntio arnynt:

- y broses gaffael a rheoli caffael – pwysigrwydd gweithdrefnau cryf ac effeithiol, a oedd yn cael eu hailysgrifennu ar hyn o bryd, ystyried y broses lleoli cyflenwadau, canfod a lliniaru risgiau yn gynnar, categoreiddio'r rhestr gontractau;
- strwythur y sefydliad – canoli'r broses a datblygu'r tîm canolog, dull cydgysylltiedig o weithio gyda rheolwyr contractau, darparu cyngor ar y contractau hynny sydd islaw'r trothwy o £25k;
- defnyddio technoleg yn effeithiol – ystyried prynu systemau sy'n hanfodol i'r strategaeth TG a system rheoli contractau ar-lein.

16. Diolchodd y Pwyllgor Archwilio i Jan am y cyflwyniad, a chefnogodd ei amcanion o ran canoli'r broses, a nododd bwysigrwydd sicrhau bod adnoddau digonol i gefnogi hynny. Pwysleisiodd Angela Burns ei bod yn bwysig sicrhau nad oedd

prosesau'n rhwystro cyfleoedd ac arloesedd busnesau bach a Chymreig.

17. Cytunodd Jan, a nododd ei fod yn awyddus i gael gwared ar y rhwystrau ac i apelio at fusnesau bach a chanolig a chwmnïau o Gymru ble bynnag y bo modd, gan wirio'r risgiau a defnyddio cwmnïau llai pan fo'n briodol. Dywedodd Jan wrth y Pwyllgor mai ei obaith oedd sicrhau bod systemau ac adnoddau ar waith a fyddai'n sicrhau lefel sylfaenol o hyder erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd yn canolbwyntio yn awr ar y prosiectau hanfodol ac ar ddatblygiad y tîm. Roedd Jan o'r farn y gellid cyrraedd lefel sicrwydd hyderus erbyn diwedd y flwyddyn

## Dull Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad

### Eitem 8 – Rheoli Risg

ACAC(11) Papur 3a. Adolygiad o'r fframwaith risg

18. Cyflwynodd John Grimes yr adroddiad interim ar y dull o Reoli Risg yn sgîl argymhellion diweddar ynghylch archwilio mewnol a nodau newydd y sefydliad. Roedd y dull newydd yn anelu at symleiddio'r broses o gofnodi a monitro risgiau, ac roedd yn cynnwys darpariaeth i'w rheoli mewn modd amserol wrth eu dyrchafu. Ychwanegodd Claire Clancy y dylai'r fframwaith fod yn addas i'r diben ar adeg benodol, a'i bod bellach yn bryd symleiddio'r broses, gan fod rheoli risg wedi gwreiddio'n gadarn.

19. Cytunodd y Cadeirydd â'r syniad o symleiddio'r broses, ac ychwanegodd ei bod yn bwysig cael datganiad clir a manwl ynghylch archwaeth risg y sefydliad. Cytunodd Claire fod risg y gellid colli hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn gyflym os nad oedd yr

archwaeth yn caniatáu hynny, ac y byddai peidio â gweithredu yn risg ynddo'i hun.

20. Cytunodd Tim Knighton ynglŷn â chael un ystorfa ar gyfer risgiau, a nododd y dylai fod asesiad clir o risgiau wrth iddynt ddigwydd. Gofynnodd y Pwyllgor i gael gweld y cofrestrau a'r symudiadau yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 9 – Y Datganiad Llywodraethu**

ACAC(11) Papur 3b. Y wybodaeth ddiweddaraf am y dull newydd o ymdrin â'r Datganiad Llywodraethu

21. Cyflwynodd Claire Clancy y dull newydd o ymdrin â'r Datganiad Llywodraethu. Mae'r dull newydd, sy'n disodli'r 'Datganiad ar Archwilio Mewnol', yn canolbwyntio llai ar brosesau, ac mae'n cynnwys trefnu cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Rheoli, a chyda Mair Barnes, cynghorwr annibynnol Comisiwn y Cynulliad, y Pennaeth Archwilio Mewnol, ac Ian Summers, i drafod y modd y mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu dros y flwyddyn. Roedd Datganiad Llywodraethu drafft wedi'i baratoi ar sail hyn ac roedd wedi'i ddarparu er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried.

22. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y dull gweithredu hwn. Ychwanegodd Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru fod y Swyddfa wedi ymgysylltu â John Grimes a swyddogion drwy gydol y broses a phwysleisiodd bwysigrwydd ymgysylltu yn y maes hwn; cytunodd hefyd fod y broses yn un effeithlon. Byddai drafft pellach ar gael i'r aelodau ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

**Eiem 10 – Her Allanol**

ACAC(11) Papur 3c. Adborth ynghylch yr ymarfer Her Allanol

23. Rhoddodd Claire Clancy drosolwg o'r ymarfer her allanol, a diolchodd i'r cynghorwyr a oedd yn rhan ohono. Cynhaliwyd yr ymarfer i gael sicrwydd annibynnol pellach, i ysgogi perfformiad, ac i roi cyfle i Benaethiaid Gwasanaeth ystyried ffyrdd gwahanol o weithredu. Ychwanegodd Claire ei fod eisoes wedi bod o fudd i'r Cynulliad, ac y byddai pob un o ganlyniadau'r ymarfer yn cael ei ddwyn ymlaen.

24. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio fod hwn yn ymarfer defnyddiol iawn ac y dylid ailedrych arno.

**Eitem 11 – Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio**

25. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor Archwilio y byddai ef a John Grimes yn edrych ar adroddiad blynyddol drafft yn yr wythnosau nesaf ac y byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i weddill y Pwyllgor. Gofynnodd hefyd a fyddai modd i unrhyw sylwadau ar y Cylch Gorchwyl gael eu gwneud yn y cyfarfod nesaf.

26. Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio, o ystyried yr aelodaeth newydd, a chan fod blwyddyn wedi mynd heibio heb ddefnyddio teclyn asesu ar-lein Swyddfa Archwilio Cymru, y byddai'r Pwyllgor yn cynnal yr ymarfer eleni. Byddai John Grimes yn cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru ac yn trefnu'r asesiad mewn digon o amser fel y gellid rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf.

<u>**Eitemau eraill**</u>

**Eitem 12 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gyllideb**

ACAC(11) Papur 4a. Strategaeth Cyllideb y Comisiwn

27. Cyflwynodd Nicola Callow ei phapur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb, gan nodi bod y gyllideb atodol wedi cael ei gosod yn llwyddiannus, fod dyraniadau cyllideb 2012/13 wedi'u rhoi i feysydd gwasanaeth i'w gwirio, a bod gwaith yn mynd rhagddo ar y gyllideb ar gyfer 2013/14 yn unol â'r nodau newydd. Nododd Nicola y byddai papur ynghylch strategaeth y gyllideb yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor nesaf.

**Eitem 13 – Eitemau eraill – Crynodeb o'r ymadawiadau**

ACAC(11) Papur 4b. Crynodeb o'r ymadawiadau

28. Nododd y Pwyllgor Archwilio y crynodeb o'r ymadawiadau.

**Eitem 14 – Y Flaenraglen Waith**

ACAC(11) Papur 4c. Y flaenraglen waith

29. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar y flaenraglen waith.

**<u>Eitem 15 – Trafodaeth breifat ag Archwilio Mewnol</u>**

30. Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio drafodaeth breifat â chynrychiolwyr o Archwilio Mewnol, a chytunodd nad oedd pwyntiau i weithredu arnynt.

**<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

31. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 19 Ebrill 2012.